

Trosolwg

Mae'r safon yma'n ymwneud â steilio gwallt gan ddefnyddio amrywiaeth eang o dechnegau thermal. Mae'n ofynnol bod â'r gallu i steilio'n thermal gwallt wedi'i drin yn gemegol yn a gwallt naturiol fel ei gilydd.

Er mwyn gweithredu'r safon hon, fe fydd angen ichi gynnal a chadw safon uchel o iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Fe fydd angen ichi hefyd gynnal gwisg a gwedd bersonol broffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol.

Dyma brif ddeilliannau'r safon hon:

1. cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth ddefnyddio technegau steilio thermal
2. paratoi gwallt a chyfarpar ar gyfer steilio thermal
3. creu amrywiaeth golwg ffasiwn gan ddefnyddio technegau steilio thermal

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal a chadw dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth ddefnyddio technegau steilio thermal

* *

1. cynnal eich cyfrifoldebau iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth
2. paratoi eich cleient i gyfarfod â gofynion y salon
3. amddiffyn dillad eich cleient trwy gydol y gwasanaeth
4. gosod eich cleient i gyfarfod â gofynion y gwasanaeth heb achosi anesmwythdra iddyn nhw
5. sicrhau bod eich osgo a'ch lleoliad wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
6. cadw eich man gwaith yn lân a thaclus trwy gydol y gwasanaeth steilio thermal
7. defnyddio dulliau gweithio sy'n:
 - 7.1 lleihau gwastraff cynhyrchion
 - 7.2 lleihau'r niwed i **offer a chyfarpar steilio thermal**
 - 7.3 lleihau'r risg o draws-heintiad
 - 7.4 gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gwaith
 - 7.5 sicrhau defnydd adnoddau glân
 - 7.6 lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi eich hunan ac eraill
 - 7.7 hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynladwy
 - 1.

Steilio gwallt gan ddefnyddio technegau steilio thermal

sicrhau bod eich hylendid, diogelwch a'ch gwisg a gwedd bersonol yn ateb gofynion diwydiant a sefydliadol derbyniol

2.

dilyn cyfarwyddiadau gweithle a chyflenwyr neu wneuthurwyr ynglŷn â defnydd diogel **offer** a **chyfarpar steilio thermal**, deunyddiau a chynhyrchion

3.

gwaredu deunyddiau gwastraff

4.

cwblhau steilio o fewn amser sy'n fasnachol ymarferol

Paratoi gwallt a chyfarpar ar gyfer steilio thermal

1.

cadarnhau gyda'ch cleient yr olwg a gytunwyd wrth ymgynghori cyn dechrau'r gwasanaeth

2.

dewis cynhyrchion, **offer** a **chyfarpar steilio thermal** addas i gyflawni'r olwg a gytunwyd gyda'r cleient

3.

sicrhau bod yr **offer steilio thermal** a'r ffwrn ar y tymheredd gofynnol mewn pryd ar gyfer y gwasanaeth

4.

profi tymheredd yr **offer steilio thermal** cyn eu defnyddio

5.

cynghori eich cleient o'r anesmwythdra posib ynghlwm â steilio thermal

Creu amrywiaeth golwg ffasiwn gan ddefnyddio technegau steilio thermal

1.

rheoli eich **offer steilio thermal** er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r **gwallt**, anesmwythdra i'r cleient ac i gyflawni'r olwg a ddymunir

2.

rhannu'r adrannau'n glir a chydadd i lwyddo cael cyfeiriad y steil a ddymunir

3.

cymryd rhwyllau o **wallt** sy'n addas i faint yr heyrn thermal

4.

taenu cynhyrchion steilio priodol gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

5.

rheoli gwallt eich cleient yn ystod y broses steilio thermal gan gymryd i ystyriaeth

Steilio gwallt gan ddefnyddio technegau steilio thermal

ffactorau sy'n dylanwadu ar y gwasanaeth

6.

defnyddio **technegau steilio** er mwyn cyflawni'r olwg a ddymunir

7.

cadw'r **offer steilio thermal** ar y tymheredd angenrheidiol ar gyfer y gwallt

8.

cyfuno ac addasu'ch **technegau steilio** mewn dull arloesol er mwyn cyflawni'r olwg a'r steil a ddymunir

9.

sicrhau bod yr olwg orffenedig yn cyfarfod â'r siâp, cyfeiriad, cydbwysedd a foliwm a fwriadwyd ac a gytunwyd â'ch cleient

10.

rhoi cyngor ac argymhellion i'ch cleient ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth steilio gwallt yn thermal

* *

1.
eich cyfrifoldebau am **iechyd a diogelwch** fel y diffiniwyd gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â'ch swyddogaeth
2.
y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gweithio diogel y dylech eu dilyn
3.
gofynion eich salon ynglŷn â pharatoi cleient
4.
y dewis o **ddillad diogelwch a ddylai fod ar gael i'ch cleientiaid
5.
sut all lleoliad eich cleient a chi eich hun effeithio ar y deilliant a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
6.
yr ystyriaethau diogelwch sy raid eu cymryd i ystyriaeth wrth steilio gwallt yn thermal
7.
pam ei bod mor bwysig i gadw'ch man gwaith yn lân a thaclus
8.
dulliau o lanhau, diheintio a steryllu a ddefnyddir mewn salonau
9.
dulliau o weithio'n ddiogel a glanwaith ac sy'n lleihau'r risg o draws-heintiad a thraws-bla
10.
y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo **arferion amgylcheddol a chynladwy****
11.
pwysigrwydd hylendid a chyflwyniad personol wrth gynnal a chadw **iechyd a**

diogelwch yn eich gweithle

12.

cyfarwyddiadau cyflenwyr a gwneuthurwyr ar gyfer defnydd diogel cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion sy raid ichi eu dilyn

13.

y dulliau cywir o waredu gwastraff

14.

amserau gwasanaeth disgwylidig eich salon ar gyfer steilio gwallt yn thermal

Paratoi gwallt a chyfarpar ar gyfer steilio thermal

1.

sut a phryd i ddefnyddio'r gwahanol fathau o offer a chyfarpar steilio thermal

2.

y gwahanol fathau o gynhyrchion steilio sy ar gael ar gyfer steilio thermal a sut a phryd i'w defnyddio

3.

pam ei bod hi'n bwysig i brofi tymheredd y cyfarpar steilio thermal yn barhaus

4.

dulliau o brofi tymheredd cyfarpar steilio thermal

5.

pwysigrwydd cadw offer steilio thermal yn rhydd o olewau gormodol a chynnyrch sy'n cronni

Creu amrywiaeth golwg ffasiwn gan ddefnyddio technegau steilio thermal

* *

1.

pwysigrwydd rheoli offer a chyfarpar steilio thermal er mwyn atal y risg o niwed i wallt y cleient

2.

pam bod rhaid adrannu gwallt ar gyfer steilio thermal

3.

sut mae maint yr adran o wallt a'r ongl caiff y gwallt ei gyrlio yn dylanwadu foliwm a chyfeiriad symudiad gwallt

4.

yr effeithiau y gellir eu cyflawni trwy ddefnyddio technegau steilio thermal

5.

y mathau o broblemau a all godi wrth sythu â chrib poeth a steilio thermal a sut i'w cywiro

6.

y problemau a achosir trwy orddefnydd cynhyrchion amddiffynnol a steilio a sut i'w datrys

7.

y gwahanol **ffactorau** sy raid eu cymryd i ystyriaeth cyn ac yn ystod steilio thermal a sut mae'r rhain yn effeithio ar y gwasanaeth

8.

effeithiau ffisegol steilio thermal a sythu â chrib poeth ar strwythur y gwallt

9.

pam bod rhaid trin gwallt gwyn yn wahanol wrth steilio'n thermal

10.

sut i addasu technegau steilio thermal wrth weithio ar wallt gydag ad-dyfiant gwraidd

11.

effeithiau lleithder ar wallt

12.

pam y dylid gadael i wallt oeri cyn trin i orffen

13.

sut mae'r broses steilio thermal yn effeithio ar wallt wedi'i byrmio'n flaenorol

14.

pam y dylai tymheredd y cyfarpar steilio thermal amrywio ar gyfer gwahanol nodweddion gwallt

15.

pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion am y cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir yn y salon

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

1. Offer steilio thermal

* *

1.1 heyrn fflat

1.2 heyrn cyrlio

1.3 heyrn cwrl casgen

1.4 heyrn pensel

1.5 crib sychu poeth

2. Cyfarpar

* *

2.1 ffwrn

2.2 deunyddiau profi gwres

3. Gwallt

* *

3.1 wedi'i drin yn gemegol

3.2 naturiol

4. Ffactorau

* *

4.1 nodweddion gwallt

4.2 dosbarthiadau o wallt

4.3 ad-dyfiant gwraidd y gwallt

4.4 presenoldeb gwallt gwyn

5. Technegau Steilio

* *

5.1 cyrlio

5.2 tonni

5.3 sythu

6. Cyngor ac argymhellion

6.1 sut i gynnal eu golwg

6.2 cyfnod amser rhwng gwasanaethau

6.3 cynhyrchion a gwasanaethau presennol ac yn y dyfodol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

1. Iechyd a diogelwch

eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch fel y diffiniwyd gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol yn ymwneud â'ch swyddogaeth

1.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

1.2 Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)

1.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)

1.4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)

1.5 Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario

1.6 Rheoliadau Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)

1.7 Rheoliadau Trydan yn y Gweithle

1.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd

1.9 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

1.10 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

2. Arferion gweithio amgylcheddol a chynnaladwy

y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynnaladwy

2.1 Lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ail-ddefnyddio, gwaredu diogel)

2.2 Lleihau defnydd egni (sychwyr gwallt egni-effeithiol, goleuo egni isel, defnydd o baneli solar)

2.3 Lleihau defnydd dŵr ac adnoddau eraill

2.4 atal llygredd

2.5 defnyddio eitemau tafladwy (tyweli sychu sydyn)

2.6 defnyddio dodrefn wedi'i ailgylchu, ecogyfeillgar

2.7 defnyddio paent cemegol isel

2.8 defnyddio cynhyrchion gwallt organig a rhai sy'n rhydd o alergedd

2.9 defnyddio lliwyddion gwallt amonia tra isel

2.10 defnyddio deunydd pacio cynnyrch amgylcheddol-gyfeillgar

2.11 dewis cynhyrchion domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)

2.12 annog siwrneiau lleihau carbon i'r gwaith

3. Ffactorau

y gwahanol ffactorau sy raid eu hystyried cyn ac yn ystod y broses plethu a sut mae'r rhain yn effeithio ar y gwasanaethau

3.1 dosbarthiadau gwallt

3.2 nodweddion gwallt

3.3 yr olwg a ddymunir

3.4 alopesia

4. Cyngor ac argymhellion

* *

4.1 gwasanaethau ychwanegol

4.2 cynhyrchion ychwanegol

Gwerthoedd

1. Mae'r **Prif Werthoedd** canlynol yn greiddiol i gyflwyniad a chyflawniad gwasanaethau yn y sector trin gwallt a harddwch:
 - 1.1 parodrwydd i ddysgu
 - 1.2 cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n fasnachol ymarferol
 - 1.3 cyfarfod â safonau gwisg a gwedd y sefydliad a'r diwydiant
 - 1.4 sicrhau bod hylendid a diogelwch personol yn cyfarfod â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
 - 1.5 agwedd gwaith hyblyg
 - 1.6 gweithiwr tîm
 - 1.7 cynnal a chadw gofal cwsmeriaid
 - 1.8 agwedd bositif
 - 1.9 moeseg bersonol a phroffesiynol
 - 1.10 y gallu i hunan-reoli
 - 1.11 sgiliau creadigol
 - 1.12 sgiliau cyfathrebu llafar a di-eiriau rhagorol
 - 1.13 cynnal a chadw dulliau gweithio effeithiol, glanwaith a diogel
 - 1.14 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, cyflenwyr neu wneuthurwyr ar gyfer defnydd diogel cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion

Ymddygiadau

1. Mae'r **ymddygiadau** canlynol yn greiddiol i gyflwyniad a chyflawniad gwasanaethau yn y sector trin gwallt a harddwch. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod y cleientiaid yn derbyn argraff bositif o'r salon a'r unigolyn fel ei gilydd
 - 1.1 cyfarfod â safonau ymddygiad y salon
 - 1.2 croesawu'r cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar

- 1.3 cyfathrebu gyda'r cleient mewn modd sy'n gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
- 1.4 adnabod a chadarnhau disgwyliadau'r cleient
- 1.5 trin y cleient yn gwrtais a chynnig cymorth bob amser
- 1.6 hysbysu'r cleient yn gyson o'r datblygiadau diweddaraf a thawelu eu meddyliau
- 1.7 addasu ymddygiad er mwyn ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiadau cleientiaid
- 1.8 ymateb yn ddiymdroi i gleient sy'n ceisio cymorth
- 1.9 dewis y dull mwyaf addas i gyfathrebu gyda'r cleient
- 1.10 cadarnhau gyda'r cleient eich bod wedi deall yn llawn eu disgwyliadau
- 1.11 ymateb yn ddiymdroi ac yn gadarnhaol i gwestinâu a sylwadau'r cleientiaid
- 1.12 caniatáu amser i'r cleient ystyried yr ymateb a rhoi gwybodaeth bellach pan fo'n briodol
- 1.13 cael hyd i wybodaeth yn ddiymdroi a fydd o gymorth i'r cleient
- 1.14 rhoi'r wybodaeth sy'i angen ar gleient ynglŷn â'r gwasanaethau a'r cynhyrchion a gynigir gan y salon
- 1.15 adnabod gwybodaeth sy efallai'n gymhleth i'r cleient a gwneud yn siŵr eu bod yn deall yn llawn
- 1.16 esbonio'n glir i'r cleient unrhyw resymau pam na ellir cyfarfod â'u hanghenion neu eu disgwyliadau

Geirfa

1. Dosbarthiad gwallt (canllaw yn unig ydi hyn)

Math 1 – Gwallt syth

- 1.1 Main/Tenau - gwallt yn dueddol o fod yn ysgafn, sgleiniog a seimlyd iawn, ac yn gallu bod yn anodd cynnal cwrllyn.

1.2 Canolig – gwallt â llawer o foliwm a thrwch.

1.3 Garw - gwallt fel arfer yn syth iawn ac anodd ei gyrlio.

Math 2 – Gwallt tonnog

2.1 Main/Tenau – gwallt â phatrwm "S" pendant. Fel arfer yn gallu cyflawni amrywiol steiliau

2.2 Canolig - gwallt yn dueddol o fod yn grychlyd ac ychydig yn wrthiannol i steilio.

2.3 Garw – gwallt hefyd yn wrthiannol i steilio ac fel arfer yn grychlyd iawn; tueddol o fod â thonnau mwy trwchus.

Math 3 – Gwallt cyrliog

3.1 Cyrllau rhydd – gwallt yn dueddol o fod â gwead cyfunol. Gall fod yn drwchus a llawn gyda llawer o swmp, gyda phatrwm "S" pendant. Mae hefyd yn dueddol o fod yn grychlyd.

3.2 Cyrllau tynn - hefyd yn dueddol o fod â gwead cyfunol, gyda swm canolig o gyrlio.

Math 4 – Gwallt cyrliog iawn

4.1 Ysgafn– gwallt yn dueddol o fod yn fregus iawn, wedi'i dorchi'n dynn ag â phatrwm cyrliog mwy diffiniedig.

4.2 Gwrychog – hefyd yn fregus iawn ac wedi'i dorchi'n dynn; fodd bynnag, gyda phatrwm cyrliog llai diffiniedig – mwy o siâp patrwm "Z".

1. Mae **Nodweddion gwallt** yn cynnwys y canlynol

2.1 dwysedd gwallt

2.2 gwead gwallt

2.3 elastigedd gwallt

2.4 amsugnedd gwallt

2.5 cyflwr gwallt

2.6 patrymau tyfiant gwallt

3. Sychu â chrib poeth – techneg sy'n defnyddio crib sychu thermal i sythu'r gwallt

Steilio gwallt gan ddefnyddio technegau steilio thermal

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	28 Chwef 2014
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2018
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAATH30
Galwedigaethau perthnasol	Mentrau mân-werthu a masnachol, Mentrau Gwasanaeth, Galwedigaethau Gwasanaeth Personol, Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig
Cyfres/Set	Trin gwallt
Geiriau Allweddol	Steilio; thermal; cyfarpar; gwallt wedi'i drin yn gemegol; gwallt naturiol;